



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfuno

Creu cyfleoedd drwy ddiwylliant

Cyflawni yn 2019-20



#CyfunoFusion

<http://llyw.cymru/cyfuno>

Cynnwys

- 3** Cyflwyniad
Astudiaeth Achos: Stori John
- 4** Y Cyd-destun
Blynyddoedd cynnar Cyfuno
- 5** Yr hyn yr ydym yn ei wneud yn awr: 2017-20
Cynllun Grant Her Cyfuno
- 6** Y Prosiect Uchelgais Diwylliannol
- 7** Meysydd Gwaith Arall Cyfuno
Astudiaeth Achos: Oliver ac Amy
- 8** Atodiad 1: Rhaglenni Grant Her Cyfuno yn 2017-20
 - Torfaen a Chaerffili
 - Caerdydd
 - Abertawe
- 9** - Conwy
 - Castell-nedd Port Talbot
 - Gwynedd
 - Sir Gaerfyrddin
- 10** - Casnewydd
- 11** Atodiad 2: Wyth Dangosydd Cyfuno

*Mae enwau a manylion personol yn yr astudiaethau achos sydd yn y ddogfen hon wedi'u newid er mwyn diogelu preifatrwydd unigolion

Delwedd ar y clawr blaen: © Lucy Donald

Cyflwyniad

Mae'r cyfraniad pwerus y mae diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau yn ei wneud at weddnewid cyfleoedd bywyd unigolion yn cael ei atgyfnerthu gan y rhaglen **Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant**.

Sefydlwyd Rhaglen Cyfuno gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i'r adroddiad ar **Ddiwylliant a Thlodi** a ysgrifennwyd gan y Farwnes Andrews ac a gyhoeddwyd yn 2014. Roedd yr adroddiad yn annog sefydliadau ym maes diwylliant a threftadaeth i weithio'n agosach gyda chyrff fel yr awdurdodau lleol a chynnig rhagor o gyfleoedd i bobl mewn ardaloedd dan anfantais economaidd drwy wneud hynny.

Mae Cyfuno wedi hyrwyddo a datblygu amrediad o bartneriaethau, adnoddau a chynlluniau arloesol er mwyn mynd ati i geisio cyflawni nodau'r adroddiad. Drwy alluogi ac annog trigolion mewn ardaloedd dan anfantais i ymhel â diwylliant a threftadaeth, y gobaith oedd y byddent yn elwa ar y cyfleoedd y byddent yn eu cynnig.

Sefydlwyd cynllun grant peilot o dan y rhaglen mewn nifer o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru. Ar ôl gweld bod y cynllun hwnnw'n llwyddo, sefydlwyd wyth partneriaeth Grant Her yn 2017 ac maent bellach yn gweithio gyda sefydliadau cenedlaethol a lleol ym maes diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau i gefnogi'r blynyddoedd cynnar a dysgu ar draws pob grŵp oedran, i gefnogi llesiant meddyliol a chorfforol, a chydlyniant cymdeithasol, ac i gynnig rhagor o gyfleoedd i gael profiad gwaith.

Mae Cyfuno'n bwrw ymlaen â gwahanol fentrau hefyd, gan gynnwys lleoliadau hyfforddiant, modiwlau gwirfoddoli, a galluogi pobl ifanc i drefnu ac i reoli perfformiadau yn eu cymunedau eu hunain. Mae'n cynnig cymorth hefyd iddynt fod yn gyfrifol am redeg lleoliadau diwylliant a threftadaeth, gan wneud hyn oll fel rhan o amcanion ehangach Rhaglen Cyfuno.

Astudiaeth Achos: Stori John

Gan weithio mewn partneriaeth â Hyb Cerddoriaeth Abertawe, mae Cyfuno wedi dechrau ar raglen chwe mis gyda'r Gymdeithas Strôc i ddod â stiwdio symudol ac offerynnau cerdd i gyfarfodydd ei grŵp. Nodau'r sesiynau yw gwella llesiant a chynnig ffyrdd eraill i'r grŵp gyfathrebu, drwy gerddoriaeth a chaneuon.

Daeth John i'r sesiwn gyntaf ac roedd yn teimlo'n ofidus iawn am gymryd rhan ynddi. Nid oedd am wynebu'r ffaith na fyddai, o bosibl, yn gallu canu'r gitâr bellach.

Am gyfnod o chwe mis ers cael ei strôc, nid oedd wedi gafeael yn y gitâr o gwbl. Fodd bynnag, ymunodd yn y dechnoleg cerdd a'r canu a dechreuodd ymlacio wrth i'r sesiwn fynd yn ei blaen.

Anogwyd John i roi cynnig ar ganu'r gitâr ac erbyn diwedd y sesiwn, roedd wedi gafeael yn y gitâr ac wedi chwarae cân. Roedd yn brofiad emosiynol iawn ac roedd yn hynod falch ei fod yn dal i allu canu'r gitâr.

Gyda chymorth, gall John ac aelodau eraill y grŵp ddod o hyd i ffyrdd gwahanol o gyfathrebu drwy gerddoriaeth a thrwy gael sesiynau cymorth rheolaidd.

Y Cyd-destun

- Mae rhaglen Cyfuno yn gwireddu nodau **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**. Mae'r rhaglen yn cyd-fynd fwyfwy â nodau'r Ddeddf. Mae'r systemau adrodd ar gyfer ardaloedd Grant Her a'r cyrff diwylliannol sy'n gysylltiedig â rhaglen Cyfuno yn cael eu diwygio ar hyn o bryd i fodloni'r Nodau Llesiant.
- Mae rhaglen Cyfuno yn galluogi'r sector diwylliant i gyfrannu at nifer o amcanion **Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 a Ffyniant i Bawb**, gan gynnwys gwirfoddoli, cyflogadwyedd, cefnogi pobl ifanc a hybu sgiliau digidol.
- Mae **Golau yn y Gwyll** yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer diwylliant yng Nghymru. Mae'n egluro sut y gall diwylliant, drwy raglen Cyfuno, rymuso pobl a datblygu hyder, sgiliau a chyflogadwyedd.

Blynyddoedd cynnar Cyfuno

O dan arweiniad Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD) mae camau cydgysylltiedig wedi cael eu cymryd i ddatblygu a sefydlu amcanion Cyfuno ar draws y sector.

Ers 2015, mae MALD wedi cefnogi partneriaethau Cyfuno - grwpiau o gyrff diwylliannol a chymunedol sy'n darparu gweithgareddau diwylliannol sy'n helpu i fynd i'r afael â thlodi. Mae ein gwerthusiad yn dangos mai partneriaethau lleol, strwythuredig o fewn rhaglen genedlaethol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau cydweithio gwirioneddol a chanlyniadau gwell.

Rhwng 2015 a 2017 cymerodd dros 5,000 o bobl ran yng ngweithgareddau Cyfuno, a oedd yn cynnwys 150 o bartneriaid. Gwnaethom weithio gydag awdurdodau lleol, safleoedd treftadaeth, theatrau, amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd i helpu dros 100 o bobl i ennill cymhwyster. Gwnaethom greu dros 300 o gyfleoedd i wirfoddoli, a chefnogi dros 1,500 o ddisgyblion i wneud yn well yn yr ysgol.



Yr hyn yr ydym yn ei wneud yn awr: 2017-2020

Cynllun Grant Her Cyfuno

Yn dilyn y cyfnod peilot, yn 2017 lansiodd MALD raglen Grantiau Her Cyfuno. I ddechrau roedd wyth corff arweiniol yn darparu rhaglenni strategol dwy flynedd gan ddefnyddio diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau i gefnogi cyflogadwyedd, grymuso pobl, y blynyddoedd cynnar, ac iechyd a llesiant - ar gyfer y rhai a oedd yn byw un y cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae hyn wedi cael ei estyn am flwyddyn ychwanegol wrth i swyddogion ddatblygu cynlluniau ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol.

Mae pob un o'r cyrff yn gweithio gydag amrediad o bartneriaid ym maes diwylliant, yn ogystal â sefydliadau eraill gan gynnwys cyrff gwirfoddoli, cymdeithasai tai, gwasanaethau iechyd, ysgolion, asiantaethau cymunedol, rhaglenni cyflogadwyedd - gan gynnwys Cymunedau am Waith, a'r rhaglen Dechrau'n Deg ar gyfer y blynyddoedd cynnar.

Mae pob un o'r cyrff arweiniol wedi penodi cydlynwyr Cyfuno lleol i alluogi creu rhaglenni a phartneriaethau mwy effeithiol ac i gysylltu sefydliadau â'i gilydd yn well.

Bydd MALD yn parhau i gefnogi'r partneriaethau mewn nifer o ffyrdd, gan ymateb yn ôl yr angen. Bydd y cymorth hwnnw'n cynnwys:

- Sesiynau rhwydweithio a hyfforddi rheolaidd, adnoddau a chyngor
- Cymorth i gael cyllid allanol
- Rhaglenni hyfforddi mewn ardaloedd megis Arts Award
- Cyngor a hyfforddiant ar werthuso effeithiol
- Hyrwyddo rhaglen Cyfuno yng Nghymru a'r tu hwnt.

Mae'r cyrff arweiniol yn darparu ac yn adrodd ar weithgareddau a phrosiectau sy'n bodloni dangosyddion perfformiad rhaglen Cyfuno (Atodiad 2). Roedd lefelau cyfranogi ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn galonogol iawn ac yn dangos cyfranogiad a chyflawniadau uwch ar draws yr arddangosyddion. Gwnaeth y cyrff arweiniol adrodd ar y canlyniadau canlynol:

| Dangosydd Cyfuno | 17-18 | 18-19 |
|--|-------|-------|
| C1 Cefnogi'r Blynyddoedd Cynnar a Dysgu fel Teulu | 4979 | 13087 |
| C2 Ennill cymhwyster | 423 | 720 |
| C3 Gwirfoddoli'n rheolaidd fel llwybr i waith | 332 | 761 |
| C4 Cwblhau profiad gwaith | 110 | 160 |
| C5 Sgiliau digidol gwell | 50 | 997 |
| C6 Agwedd well tuag at ddysgu'n ffurfiol | 2689 | 3046 |
| C7 Y gallu i reoli eu lles meddyliol ac iechyd corfforol yn well | 2941 | 5400 |

Darparwyd gan gydlynwyr rhwydwaith Cyfuno.

Y Prosiect Uchelgais Diwylliannol

Mae'r Prosiect Uchelgais Diwylliannol - sy'n cael ei reoli gan Sgiliau Creadigol a Diwylliannol - yn cael ei ariannu gan raglen Sgiliau ar gyfer y Dyfodol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, ac mae'n derbyn arian cyfatebol gan Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru. Bydd y prosiect pedair blynedd hwn yn rhoi i 33 o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, ac nad ydynt yn raddedigion, y cyfle i gwblhau cymhwyster NVQ Lefel 2 mewn Treftadaeth Ddiwylliannol, wrth gwblhau lleoliadau gwaith ar safleoedd treftadaeth ledled Cymru dros 12 mis.

Cafodd Uchelgais Diwylliannol ei greu i estyn allan i ardaloedd Cyfuno Cymru, ac i weithio gyda phobl mae'n bosibl bod eu profiad o'u treftadaeth leol yn gyfyngedig, ond sy'n barod i gymryd rhan a dysgu. Hyd yn hyn, mae 15 o bobl wedi dechrau ar y prosiect, ac rydym wrthi'n recriwtio'r drydedd garfan o hyfforddeion, a fydd yn dechrau ym mis Hydref 2019. O'r garfan gyntaf, rydym wedi gweld rhai llwyddiannau cynnar, gan fod dau hyfforddai wedi cael swydd, ac un wedi cael lle yn y brifysgol i barhau i ddysgu.

O ddydd i ddydd mae'r hyfforddeion yn cael eu goruchwyllo wrth iddynt gwblhau tasgau sy'n cefnogi eu cymhwyster - sy'n cael eu hasesu gan Goleg Caerdydd a'r Fro. Mae'r unedau a gafodd eu dewis ar gyfer y cymhwyster yn cyfrannu at sgiliau a chyflogadwyedd cyffredinol y dysgwyr.

Maent yn cynnwys meysydd megis marchnata, gwasanaethau cwsmeriaid a gweithgareddau dysgu. Gellir gweld y gwahaniaeth yn yr hyfforddeion yn eithaf cynnar, yn enwedig eu lefelau hyder. O fewn y tri mis cyntaf, maent i'w gweld yn fwy hyderus, yn hapusach at ei gilydd - ac maent eisoes yn sylweddoli bod ganddynt sgiliau a thalentau gwerthfawr.

Nid yw'r prosiect yn cael effaith ar fywydau pobl ifanc yn unig, mae hefyd yn gwneud gwahaniaeth i'r sefydliadau sy'n cynnig lleoliad iddynt. Dyma ddywedodd Morrigan Mason o Amgueddfa Parc Howard am un o'u hyfforddeion:



© Sgiliau Creadigol a Diwylliannol

“Mae cynnig lleoliad i'r unigolyn hwn wir wedi bod yn brofiad trawsnewidiol ar gyfer yr amgueddfa a'r tîm. Mae ganddo gymaint i'w gynnig i'r sector ac mae'n gyflogadwy iawn. Rydyn ni'n parhau i elwa ar ei amser gyda ni, a dysgodd e lawer inni ynghylch sut i gefnogi hyfforddeion yn y dyfodol.”

Bydd y cyllid presennol yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2021, fodd bynnag, mae gennym uchelgais i estyn y prosiect y tu hwnt i'r dyddiad hwnnw i gynnwys rhagor o ardaloedd yng Nghymru, ac i edrych ar ymarferoldeb gweithio ym manau eraill y DU.

Meysydd Gwaith Eraill Cyfuno

Yn ogystal â rhaglen Grantiau Her, byddwn yn parhau yn ein hymrwymiad i flaenoriaethau allweddol sy'n gofyn am weithredu ar lefel genedlaethol.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Parhau i gefnogi rhaglen Uchelgais Diwylliannol o leoliadau hyfforddi 12 mis sy'n targedu unigolion sy'n profi anfanteision, gan weithio gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri a Sgiliau Creadigol a Diwylliannol. Mae hon bellach wedi cael ei hestyn tan 2020.
- Datblygu rhaglenni ymgysylltu diwylliannol pwerus ar gyfer pobl ifanc, i gynyddu grymuso a sgiliau, gan weithio gyda phartneriaid gan gynnwys Kids in Museums a'r cynllun Young Promoters.
- Helpu i sicrhau newid sylweddol ym maes gwirfoddoli diwylliannol drwy gefnogi cyrff diwylliannol i gynyddu cyfleoedd ac ehangu mynediad at raglenni gwirfoddoli.
- Gweithio gydag adrannau eraill Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y sector diwylliannol yn chwarae rôl fwy wrth gefnogi ein blaenoriaethau mewn perthynas â chyflogadwyedd, iechyd, addysg a chymunedau cydlynus.

Astudiaeth Achos: Oliver ac Amy

Gwnaeth Rubicon Dance arwain sesiynau dawnsio hanner awr o hyd bedair gwaith yr wythnos, dros gyfnod o ddeg wythnos, ar gyfer Meithrinfa Grangetown, Caerdydd. Roedd disgyblion yn datblygu sgiliau allweddol megis sgiliau meddwl, rhifedd a chyfathrebu - wrth gael eu hannog i fod yn gorfforol weithgar. Roedd y sesiynau hefyd yn paratoi'r disgyblion ar gyfer Cyfnod Sylfaen y Cwricwlwm Cenedlaethol drwy ddechrau datblygu eu sgiliau sylfaenol, creadigrwydd, hyder, a'u gallu i ganolbwyntio - a datblygu sgiliau ar gyfer y meddwl a'r corff.

Roedd Oliver yn crio am y cwpl o wythnosau cyntaf pan ddaeth i'r sesiwn. Er mwyn ymgysylltu ag ef a datblygu ei hyder, roedd yr arweinydd dawns yn ei annog i gynyddu faint roedd yn cymryd rhan yn raddol ar gyflymder yr oedd yn gyfforddus ag ef. Ar ôl ychydig o wythnosau dechreuodd ef ymuno â rhannau o'r sesiwn, heb dynnu ei got. Yn ystod yr wythnosau nesaf gwnaeth e fagu llawer o hyder a dechrau ymuno â'r holl sesiwn. Yn ystod yr wythnosau olaf, dawnsiodd Oliver o flaen gweddill y dosbarth mewn grŵp o dri - roedd hyn yn gam mawr i'r plentyn.

Roedd Amy yn swil ac yn betrus o'r dechrau un. Byddai hi'n gwyllo o gefn yr ystafell ond roedd yn amlwg ei bod am ymuno â'r grŵp. Gwnaeth yr arweinydd dawns ei hannog o dipyn i beth. Gwnaeth hi ddechrau ymuno â'r sesiwn gynhesu ac wedyn, hanner ffordd drwy'r tymor roedd hi'n ymuno â'r holl wers. Ar ddiwedd y tymor gwnaeth Amy berfformio ar ei phen i hun o flaen y rhieni a gweddill y dosbarth. Erbyn diwedd y tymor roedd hi wedi ymgolli'n llwyr yn y dawnsio - roedd gweld hyn yn wych.

Ar ôl i'r sesiynau pilot ddod i beth gofynnodd yr ysgol i barhau â'r sesiynau ar sail tymor hir, er mwyn i athrawon eraill gymryd rhan yn y sesiynau ac i'r disgyblion barhau i gynyddu eu hyder a'u sgiliau.

Atodiad 1: Rhaglenni Grant Her Cyfuno yn 2017-20

Mae manylion cyswllt y cydlynwyr ar gyfer pob ardal Cyfuno ar gael gan dîm Cyfuno Llywodraeth Cymru: Cysylltwch â ni yn Cyfuno-Fusion@llyw.cymru neu Cyfuno-Fusion@gov.wales

Ardal Cyfuno / Corff Arweiniol

Gweithgarwch a Chanlyniadau

Torfaen a Chaerffili

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Bwrdeisdref Sirol Caerffili

Mae awdurdodau lleol Torfaen a Chaerffili yn gweithio ar raglen Cyfuno gyda'i gilydd, gan ddefnyddio diwylliant a threftadaeth i gefnogi pobl yn ardaloedd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a fu ac ardaloedd eraill. Nod y prosiect yw newid y ffordd mae pobl yn meddwl am y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth, gan eu gwneud yn berthnasol ac ar gael i bawb.

Mae'n gweithio gydag amrediad eang o bartneriaid gan gynnwys diwylliant, addysg, iechyd a chyflogaeth a chyrrff sgiliau. Mae'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â rhwystrau rhag cael swyddi drwy wirfoddoli a lleoliadau gwaith, cefnogi cyrhaeddiad addysgol, y blynyddoedd cynnar a llesiant.

Caerdydd

Amgueddfa Stori Caerdydd

Mae Amgueddfa Caerdydd, Amgueddfa Stori Caerdydd gynt, sy'n cael ei gweithredu gan Ddinas a Sir Caerdydd, yn arwain amrediad eang o bartneriaid lleol ym maes diwylliant a threftadaeth. Mae'n gweithio'n agos gyda nifer o raglenni gan gynnwys Dechrau'n Deg i ddatblygu rhaglen gyfoethog o weithgareddau, darparu cyfleoedd dysgu achrededig, datblygu sgiliau, lleoliadau hyfforddi, gwirfoddoli a phrofiad gwaith, a gweithgareddau llawn hwyl ac ystyrion ar gyfer plant, teuluoedd, pobl ifanc a'r henoed. Mae'r cyfleoedd hyn wedi cael eu targedu at unigolion sy'n byw yn Arc Ddeheuol Caerdydd a chlystyrau'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a fu.

Abertawe

Dinas a Sir Abertawe

Gan adeiladu ar lwyddiant Partneriaeth Dysgu Creadigol Abertawe, mae Dinas a Sir Abertawe yn hyrwyddo gwaith partneriaeth arloesol ac amrywiol ar draws y ddinas. Mae cyfuniad o ddarparwyr diwylliant a threftadaeth yn adeiladau cysylltiadau cymunedol ardderchog â rhaglenni a rhwydweithiau sydd eisoes yn bodoli, ac yn creu gweithgarwch newydd. Nod y prosiect yw darparu cyfleoedd cyffrous drwy ddiwylliant i gefnogi ac ymgysylltu â phobl fel rhan o'u datblygiad, a gwella llesiant, addysg a chyflogadwyedd. Gan weithio mewn partneriaeth bydd y prosiect yn sicrhau rhagor o gyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli, sgiliau creadigol a dysgu achrededig.

Conwy
Cyngor
Bwrdeistref Sirol
Conwy

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cryfhau partneriaethau diwylliannol, gan weithio gyda nifer o gyrff lleol a chenedlaethol i sicrhau bod trigolion o nifer o ardaloedd difreintiedig o fewn y Sir yn cael mynediad at ddarpariaeth ddiwylliannol. Mae ffocws cryf ar gefnogi plant a theuluoedd, yn ogystal â chyflogadwyedd a chyflogaeth drwy wirfoddoli, dysgu achrededig a gwella sgiliau. Mae gweithgareddau'n cynnwys adrodd storïau, gweithdai celf, prosiectau archif, digwyddiadau, cyfleoedd i wirfoddoli, a chyfleoedd ffotograffiaeth a drama.

Castell-nedd Port
Talbot
Tai Tarian

Mae Tai Tarian (NPT Homes gynt) yn cefnogi cyfleoedd i wirfoddoli, cyflogadwyedd, rhaglenni llythrennedd ariannol a rhifedd, a chyfleoedd celf a diwylliant ym Mhort Talbot a'r tu hwnt. Mae un o'i raglenni mwyaf pwysig gydag Ysgol Bae Baglan lle mae'n defnyddio ffilm, y cyfryngau a diwylliant fel ffordd o hybu cyfranogiad a chyrhaeddiad. Mae Tai Tarian yn gweithio'n agos gyda phartneriaid gan gynnwys yr actor Michael Sheen, National Theatre Wales a Ffilm Cymru.

Gwynedd
Cyngor Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd yn cyflawni rhaglen o weithgareddau, gan weithio gyda phartneriaid sy'n cynnwys Storiell, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Gwasanaeth Llyfrgelloedd Gwynedd, Pontio, Cadw, Amgueddfa Lechi Cymru ac eraill. Mae'n canolbwyntio ar gefnogi pobl ifanc a theuluoedd drwy'r rhaglen Family Learning Signature, gan ddatblygu dulliau newydd ar gyfer cynyddu'r niferoedd sy'n gwirfoddoli, a chefnogi llythrennedd yn ystod y blynyddoedd cynnar.

Mae Cyngor Gwynedd yn canolbwyntio ei waith yn bennaf ar glwstwr y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a fu ym Mangor, Caernarfon a Talysarn, yn ogystal â chymunedau eraill.

Sir Gaerfyrddin
Cyngor Sir
Gaerfyrddin

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin a'i bartneriaid yn cyflawni amrediad eang o brosiectau a gweithgareddau diwylliannol. Mae'n gweithio ochr yn ochr â rhaglenni Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru a rhaglenni cyflogadwyedd allweddol megis Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy. Maent yn canolbwyntio'r gwaith yn ardal Llanelli ac ardaloedd sy'n profi anfantais economaidd. Prif nod y rhaglen yw creu cyfleoedd a fydd yn cefnogi unigolion i gael swyddi. Gan weithio mewn partneriaeth, mae cyrff diwylliant a threftadaeth yn blaenoriaethu cyfleoedd i wirfoddoli, lleoliadau gwaith, hyfforddiant, llesiant, ac annog pobl i gymryd rhan mewn diwylliant lleol.

Casnewydd
Cyngor Dinas
Casnewydd

Mae Dinas Casnewydd yn canolbwyntio ar leihau rhwystrau rhag cael mynediad at ddiwylliant, gan weithio gydag amrediad o bartneriaid diwylliant gan gynnwys Amgueddfa Casnewydd, Cadw, Amgueddfa Cymru, It's my Shout, Casgliad y Werin Cymru ac Ymddiriedolaeth y Siartwyr. Mae'n gweithio'n agos gyda rhaglenni etifeddol Dechrau'n Deg a Chymunedau am Waith, yn ogystal â landlordiaid yn y sector cymdeithasol. Mae'n canolbwyntio ar greu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn diwylliant a threftadaeth i gefnogi eu dysgu, gan greu lleoliadau gwaith a chyfleoedd i wirfoddoli er mwyn gwella cyflogadwyedd, hyrwyddo cynhwysiant digidol, a chefnogi iechyd a llesiant corfforol a meddyliol.



Atodiad 2: Wyth Dangosydd Cyfuno

| Mesur Perfformiad | Nodau WFG | Diffiniad | Enghreifftiau o ganlyniadau Gweithgaredd Diwylliannol |
|--|---|---|--|
| C1 Cefnogi'r Blynyddoedd Cynnar a Dysgu fel Teulu | Cymru sy'n fwy cyfartal | <p>Cyfranogwyr yn bresennol mewn gweithgareddau diwylliannol strwythuredig sy'n hyrwyddo dysgu a datblygu o enedigaeth hyd at oedran ysgol. Darparwyd gydag amrywiol bartneriaid cymunedol ac eraill, gan gynnwys darparwyr gofal plant, rhaglenni megis Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, ac ysgolion. Caiff y canlyniadau eu datblygu er budd plant yn ogystal â rhieni/ gofalwyr.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Cynlluniau i annog rhieni a gofalwyr i fod yn fwy parod i ddarllen/cynnal gweithgarwch diwylliannol gyda phlant. • Defnyddio gweithgarwch diwylliannol fel rhan o'r pecyn Family Learning Signature. • Sesiynau dysgu teuluoedd penodol mewn lleoliadau diwylliannol. • Sefydliadau diwylliannol yn darparu gweithgareddau dysgu teuluoedd mewn lleoliadau cymunedol. |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | | |
| C2 Ennill cymhwyster | Cymru lewyrchus | <p>Mae'r cleient yn derbyn cymhwyster cydnabyddedig sydd â'r bwriad o ddatblygu cyflogadwyedd y cleient. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau CQFW a gwobrwyon cysylltiedig e.e. Unedau Agored, NOCN.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Trwy gyfranogiad wedi'i drefnu gan gorff diwylliannol, mae'r cleient yn derbyn achrediad/ cymhwyster cydnabyddedig. Gall gynnwys Gwobr Gelfyddydol Efydd, Arian ac Aur ac unedau megis Agored, OCN ac eraill. |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | | |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | | |

| Mesur Perfformiad | Nodau WFG | Diffiniad | Enghreifftiau o ganlyniadau Gweithgaredd Diwylliannol |
|--|---|--|--|
| C3 Gwirfoddoli'n rheolaidd – yn ddelfrydol fel llwybr i weithio | Cymru lewyrchus | Mae'r cleient yn gwirfoddoli o fewn lleoliad diwylliannol neu ran o gorff diwylliannol neu dreftadaeth yn rheolaidd. | <ul style="list-style-type: none"> • Mae corff diwylliannol yn rhoi cyfle i gleientiaid wirfoddoli, ac yn gweithio gyda rhaglenni cefnogi cyflogaeth, asiantaethau cymunedol a phartneriaid eraill i ddod o hyd i unigolion addas ac i'w cefnogi. • Mae cyrff diwylliannol yn gwobrwyo gwirfoddoli er enghraifft drwy fentrau cofnodi amser a hefyd yn cydnabod credydau cofnodi fel taliadau. |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | | |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Mae hyn yn ddelfrydol, ond nid yn unig, yn lwybr at waith. | |
| C4 Cwblhau profiad gwaith | Cymru lewyrchus | Mae'r cleient yn cwblhau profiad gwaith o fewn lleoliad diwylliannol ac/neu fel rhan o gorff diwylliannol neu dreftadaeth am gyfnod penodol. Mae'n rhaid i gleientiaid fod yn bresennol am o leiaf 75% o'r amser. | <ul style="list-style-type: none"> • Gwaith gyda corff diwylliannol gyda rhaglenni cynnal cyflogadwyedd neu raglenni cyfeirio eraill i ganfod cyfranogwyr a darparu lleoliadau gwaith. |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | | |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | | |

| Mesur Perfformiad | Nodau WFG | Diffiniad | Engbreiffiau o ganlyniadau Gweithgaredd Diwylliannol |
|--|---|--|--|
| C5 Sgiliau digidol gwell | Cymru lewyrchus | Mae cleientiaid wedi'u cefnogi i ddatblygu eu sgiliau digidol. | <ul style="list-style-type: none"> Hyfforddiant TGCh achrededig, cydnabyddedig (yn bennaf drwy lyfrgelloedd cyhoeddus). Cyfrannu at raglenni treftadaeth ddigidol achrededig neu strwythuredig (e.e. Casgliad y Werin Cymru). Cymryd rhan mewn prosiect diwylliannol â'r prif ffocws i wella sgiliau digidol. |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | | |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | | |
| C6 Agwedd well tuag at ddysgu'n ffurfiol | Cymru sy'n fwy cyfartal | Mae'r cleient yn dangos gwelliant mesuradwy yn eu hymagwedd tuag at ddysgu ffurfiol, a'u cyrhaeddiad posibl, drwy eu cysylltiad â diwylliant. Dylid darparu tystiolaeth gan yr ysgol neu'r asiantaeth yn hytrach na hunan-gofnodi. | <ul style="list-style-type: none"> Cyrff diwylliannol yn cydweithio gydag ysgolion ac asiantaethau cymunedol a chyrff eraill (e.e. unedau cyfeirio) i gynnig gweithgareddau strwythuredig sy'n cefnogi pobl ifanc i wella eu hysgogiad, eu hyder a'u sgiliau ac i arwain at wella ymagwedd at ddysgu. Byddai'n bosibl cynnig tystiolaeth a chofnodi perfformiad academiaidd gwell mewn rhai achosion. |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | | |

| Mesur Perfformiad | Nodau WFG | Diffiniad | Engbreiffiau o ganlyniadau Gweithgaredd Diwylliannol |
|--|--|--|--|
| <p>C7 Y gallu i reoli eu lles meddyliol ac iechyd corfforol yn well</p> | <p>Cymru iachach</p> <hr/> <p>Cymru sy'n fwy cyfartal</p> <hr/> <p>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</p> | <p>Cleientiaid yn cofnodi strategaethau rheoli gwell ar gyfer eu lles meddyliol ac/neu yn derbyn cymorth i helpu iddynt wella eu iechyd corfforol, trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a threftadaeth ble mae'r prif ffocws ar wella eu iechyd a'u lles.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Cynlluniau cyfeirio/ argymhellion gan feddygon teulu gan ddefnyddio gweithgarwch diwylliannol. • Rhaglenni gwirfoddoli. • Gwaith atgofion/ cartref gofal gan ddefnyddio gweithgarwch diwylliannol. • Cyfraniad diwylliannol ymarferol megis gwaith crefft fel gweithgarwch therapiwtig – fel yn y Meddwl Corff ac Ysbryd. • Cyfrannu at weithgarwch corfforol a pherfformio gyda manteision iechyd amlwg (e.e. dawnsio, canu). • Gweithgareddau diwylliannol sy'n cyfrannu at y 'Pum cam i lesiant' (New Economics Foundation). |

| Mesur Perfformiad | Nodau WFG | Diffiniad | Enghreifftiau o ganlyniadau Gweithgaredd Diwylliannol |
|---|---|---|--|
| C8* Sicrhau gwell cydlyniant cymunedol | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cleientiaid yn nodi mwy o ymdeimlad o berthyn ac integreiddio i'r gymdeithas yn ehangach. | Prosiectau diwylliannol â'r brif nod yw: <ul style="list-style-type: none"> • Edrych ar amrywiaeth ddiwylliannol ai' ddathlu, gan weithio i gael gwared ar deimladau o ofn a diffyg ymddiriedaeth rhwng pobl o gefndiroedd gwahanol o ran hil, crefydd neu ddiwylliant. • Dileu rhwystrau i gyfranogiad gan bobl o gefndiroedd gwahanol o ran diwylliant, hil, crefydd ac anabledd. • Rhoi cymorth i fewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'r gymuned sefydlog yn ystod y broses integreiddio. |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Grwpiau a chleientiaid lleiafrifol yn nodi eu bod yn gweld gweithgareddau mewn lleoliadau diwylliannol a threftadaeth yn berthnasol iddynt eu hunain a'u cymunedau. | |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | | |

*Ychwanegwyd mesur perfformiad C8 yn 2019.